# CYLLID CONNECTOR
# FFURFLEN GAIS

Noder, os ydych yn gwneud cais gydag unigolyn neu sefydliad arall fel partneriaid cyfartal ar y prosiect, dylech ddarparu eu manylion nhw ochr yn ochr â'ch rhai chi yn yr adran 'Amdanoch Chi'.

| **Ni fyddwch yn gallu llenwi'r ffurflen gais hon yn gywir nes eich bod wedi darllen Canllawiau Cyllido Connector ac rydym yn eich cynghori i droi yn ôl atynt wrth i chi lenwi'r ffurflen. Cyn parhau, cadarnhewch fod eich cynnig yn bodloni neu'n gallu bodloni'r gofynion cymhwysedd canlynol:** | |
|---|---|
| Rydych chi'n gwneud cais trwy sefydliad sydd wedi'i leoli yn y DU | ☐ |
| Mae tîm cyflawni eich prosiect yn adlewyrchu profiad yn y diwydiannau creadigol a/neu brofiad ym maes datblygu talent greadigol | ☐ |
| Rydych chi a thîm eich prosiect dros 18 oed ac nid ydych mewn addysg amser llawn | ☐ |
| Bydd eich cynnig yn cefnogi darpar awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr, rhai newydd neu rai datblygol, ar drywydd i greu ffilmiau nodwedd i'w rhyddhau yn y sinema. | ☐ |
| Bydd cyfranogwyr eich gweithgarwch yn bennaf yn awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr a aned yng Nghymru neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru nad ydynt eto wedi arwain ar ffilm nodwedd sydd wedi'i dosbarthu'n fasnachol yn y DU | ☐ |
| Bydd cyfranogwyr eich gweithgarwch dros 18 oed ac ni fyddan nhw mewn addysg amser llawn | ☐ |
| Mae eich cynnig yn ymwneud â gweithgarwch y gellir ei gyflawni cyn mis Mawrth 2026 ond nid ydych yn gofyn am gyllid ar gyfer gweithgarwch sydd eisoes wedi cychwyn | ☐ |

## AMDANOCH CHI

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Cais | |
| Enw'r Ymgeisydd | |
| Enw'r Sefydliad | |
| Dolen i Gofnod Tŷ'r Cwmnïau (os yw'n berthnasol) | |
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif Ffôn | |
| Cyfeiriad E-bost | |

| | |
|---|---|
| Gwefan yr Ymgeisydd neu'r Cwmni (os yw'n berthnasol) | |

## EICH TÎM POSIBL

Noder nad oes rhaid i chi fod wedi cynnull eich tîm cyfan ar adeg gwneud cais ond dylech allu dangos mynediad at y bobl gywir yn yr adrannau naratif. Yn yr un modd, os oes gennych chi bobl yn cyflawni rolau eraill ar y prosiect ar hyn o bryd, ychwanegwch resi ar gyfer yr unigolion hynny.

| **Rôl** | **Enw** | **Dolen IMDB / dolen i broffil ar-lein arall** | **Preswylio yng Nghymru? Os felly, nodwch y sir** | **Yn enedigol o Gymru?** |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Prosiect | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Rheolwr Prosiect | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Cynhyrchydd Digwyddiadau | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Cydlynydd Digwyddiadau | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Gweinyddwr | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Cyfathrebu | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Swyddog Ymgysylltu | | | ☐ Sir: | ☐ |
| Pobl a fydd yn ein helpu i hyrwyddo'r prosiect | | | Amh. | Amh. |

## YNGLŶN Â'CH PROSIECT

| | |
|---|---|
| Teitl y Prosiect | *Testun enghreifftiol: Dirprwyaeth Animeiddio* |
| Prif Nod y Prosiect (un frawddeg) | *Testun enghreifftiol: Cynorthwyo gweithwyr animeiddio proffesiynol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu ffilm nodwedd animeiddiedig, i ddeall y ffordd y mae'r diwydiant ffilmiau nodwedd animeiddiedig yn gweithio.* |
| Is-nodau'r prosiect (pwyntiau bwled) | *Testun enghreifftiol:*<br>- *Gwella dealltwriaeth o'r rolau o fewn ffilmiau nodwedd animeiddiedig*<br>- *Gwella dealltwriaeth o'r ffordd y caiff prosiectau ffilmiau nodwedd eu datblygu a'u hariannu*<br>- *Gwella dealltwriaeth o'r chwaraewyr allweddol yn y diwydiant ffilmiau nodwedd animeiddiedig*<br>- *Cysylltu darpar awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr ffilmiau nodwedd yng Nghymru â'i gilydd ac ag eraill yn y diwydiant*<br>- *Ysbrydoli'r arfer o adrodd straeon ffurf hir o fath a all gystadlu yn nhirwedd ryngwladol ffilmiau nodwedd animeiddiedig*<br>- *Gwella amrywiaeth awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr ffilmiau nodwedd animeiddiedig yn enwedig o ystyried hil ac ethnigrwydd* |
| Cynulleidfa(oedd) targed<br>*Nodwch yn glir a ydych yn targedu talent newydd, datblygol neu brofiadol mewn perthynas â ffilmiau nodwedd a sut rydych yn diffinio pob term. (Dim mwy na 200 gair)* | *Testun enghreifftiol:*<br>- *Talent y mae ffilmiau nodwedd animeiddiedig yn newydd iddynt*<br>- *Unigolion ag o leiaf ddau gredyd mewn animeiddio (boed yn gorfforaethol, masnachol, penodau neu fel arall) sydd â diddordeb mewn ysgrifennu, cyfarwyddo neu gynhyrchu ffilm nodwedd animeiddiedig ac sydd wedi'u lleoli yng Nghymru*<br>- *Rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt i weld y dalent animeiddio bosibl yng Nghymru* |
| Faint o bobl ydych chi'n bwriadu eu cyrraedd?<br>*Nodwch yr union ffordd y byddwch yn eu cyrraedd, e.e. byddwch o fudd i garfan fwy gyda rhan o'ch gweithgarwch (Dim mwy na 200 gair)* | *Testun enghreifftiol:*<br>- *50 o bobl mewn digwyddiad ymgysylltu a rhwydweithio cychwynnol gyda thrafodaeth banel addysgol*<br>- *8 o bobl yn cymryd rhan yn y ddirprwyaeth* |
| Lleoliadau Allweddol y Gweithgarwch. Yn achos lleoliadau yng Nghymru, enwch y siroedd yn ogystal â'r lleoliad(au) posibl mwy penodol. | *Testun enghreifftiol:*<br>*Ar-lein, yng Nghaerdydd, ac yng Ngŵyl Animeiddio Annecy yn Ffrainc* |
| Dyddiadau Arfaethedig y Prosiect | *Testun enghreifftiol:*<br>- *Ebrill – hyrwyddo a phroses ymgeisio*<br>- *Mai – sesiynau paratoadol ar-lein*<br>- *Mehefin 11 i 14 2025 – Presenoldeb yn yr Ŵyl*<br>- *Diwedd Mehefin – ôl-drafodaeth rwydweithio a gwerthuso* |

| | |
|---|---|
| Ydych chi wedi gwneud cais gyda'r prosiect hwn o'r blaen i Ffilm Cymru neu Gymru Greadigol? Os felly, nodwch flwyddyn y cais, y gronfa a'r canlyniad. | *Testun enghreifftiol:*<br>*Do, fe wnes i gais i Gronfa Sgiliau Creadigol Cymru Greadigol yn 2024 ac roeddwn yn aflwyddiannus* |
| *Gallwch ymateb i'r cwestiynau isod trwy nodyn llais neu fideo. Gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw'n fwy na deng munud o hyd a gludwch y ddolen ac unrhyw gyfrineiriau sydd eu hangen isod. Gallwch hefyd atodi'r fideo neu'r nodyn llais i'ch e-bost a dweud hynny yng ngeiriad yr e-bost.* | |
| Trosolwg o Weithgarwch y Prosiect (Dim mwy na 500 gair) | *Testun enghreifftiol:*<br>*Bydd ein Dirprwyaeth Animeiddio yn ofod diogel a meithringar i bobl sydd â diddordeb mewn datblygu gyrfa mewn ysgrifennu, cyfarwyddo a chynhyrchu ffilmiau nodwedd. Bydd y gweithgarwch yn cynnwys:*<br>- *1 x digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cynnwys unigolion sydd wedi gweithio ym maes animeiddio ar draws gwahanol is-sectorau yn canolbwyntio ar drafodaeth ar y gwahaniaeth rhwng Animeiddio i'r Teledu ac ar gyfer Ffilm*<br>- *2 x sesiwn baratoadol i garfan ddethol , un ar-lein ac un wyneb yn wyneb. Un gyda siaradwyr allweddol o fyd animeiddio i'w cynghori ar sut i wneud y gorau o'r ŵyl ac un yn canolbwyntio ar rwydweithio'r garfan gyda'i gilydd a'u helpu i ddatblygu eu targedau a'u canlyniadau dysgu eu hunain.*<br>- *Presenoldeb yn yr ŵyl dros 4 diwrnod a 3 noson. Pennu mentor i bob person i'w harwain drwy'r ŵyl. Pryd bwyd gyda dirprwyaethau animeiddio eraill o Animation UK a Gwlad Belg (i annog dealltwriaeth o gydgynhyrchu).*<br>- *1 x sesiwn adborth a rhwydweithio olaf wyneb yn wyneb. Sesiynau wyneb yn wyneb gyda phob cyfranogwr; datblygu cynllun gyrfa a chasglu data ar yr hyn fyddai'n ddefnyddiol iddyn nhw nesaf, yr hyn a wnaethom yn dda a'r hyn y gallem fod wedi'i wneud yn well.* |
| Pa dystiolaeth sydd gennych chi o'r angen am y gweithgarwch hwn? Pa gymorth sydd ar gael yn y maes hwn? *Darparwch ddolenni ategol os oes gennych rai. (Dim mwy na 500 gair)* | *Testun enghreifftiol:*<br>- *Mae gŵyl Xxxxx yn cynnig cymorth gwych i ddarpar weithwyr animeiddio proffesiynol, gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau y tu hwnt i'r ŵyl fel 'xxxxx'*<br>- *Mae cyllid ar gael ar gyfer ffilmiau animeiddiedig gan Ffilm Cymru, y BFI a Chymru Greadigol, boed yn ffilmiau hir, ffilmiau byr, datblygu neu gynhyrchu.*<br>- *Fodd bynnag, fel yn achos y rhan fwyaf o weithgarwch hyfforddi yn y DU, anaml y mae hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol ag animeiddio yn canolbwyntio ar ffilmiau nodwedd annibynnol ac anaml y mae'n ystyried lleoliad daearyddol y dalent yn ffactor allweddol wrth ddethol cyfranogwyr, ac mae'r ceisiadau'n gystadleuol.*<br>- *Mae gan Gymru hanes cyfoethog ym maes animeiddio, ond mae cyllidebau uchel y darlledwyr ar gyfer animeiddio a oedd yn arfer hybu hyn yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.*<br>- *Yn Adroddiad Busnes Sgrin y BFI o fis Tachwedd 2021, cofnodwyd gostyngiad o 30% yng ngwariant cynhyrchu animeiddiadau teledu (ATR) y DU hyd at 2020, ochr yn ochr â chynnydd mewn ffilmiau animeiddiedig. Er bod y farchnad fyd-eang yn tyfu, mae stiwdios animeiddio a chwmnïau cynhyrchu yn y DU yn wynebu gostyngiad mewn buddsoddiad domestig a chystadleuaeth gynyddol. Er ein henw da, mae angen i ni flaenoriaethu datblygu ein heiddo deallusol ein hunain. Heb fynd i'r afael â hyn, gallai hyn arwain at dalent yn gadael, cyfleoedd heb eu gwireddu, diffygion sgiliau, a gwanhau ein gwaddol diwylliannol.* |

| | |
|---|---|
| | - *Yn ôl Adroddiad Animation UK [‘Inclusion & Diversity in UK VFX, Animation & Post-Production’] mae potensial mawr ar gyfer amrywiaeth ym maes animeiddio o gymharu â ffilmiau gweithredu byw, gyda 27% o ymatebwyr i’r adroddiad hwn wedi’u lleoli y tu allan i Lundain, a chyda chanrannau cryf o fenywod ac unigolion lgbtq+. Nodwyd bod angen gweithredu i gefnogi cynrychiolaeth BAME, Anabl a dosbarth gweithiol yn gyffredinol ac i gefnogi mwy o fenywod mewn rolau arweinyddiaeth uwch.*<br>*Mae'n werth nodi hefyd bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bob rôl ym maes animeiddio ac nid yw'n canolbwyntio ar ffilmiau nodwedd. Gallwn ddychmygu bod y darlun ar gyfer ffilmiau nodwedd gryn dipyn yn waeth, ond yn aml nid oes gan ddata ar y diwydiant ffilmiau nodwedd ffocws penodol ar ffilmiau nodwedd animeiddiedig fel is-sector ar wahân, gan nodi nad oes yna BFI Doc Society ar gyfer animeiddio, er enghraifft.* |
| Rhowch fanylion y sgiliau, profiad, perthnasoedd a gwybodaeth sydd gennych chi neu eich tîm a fydd yn hanfodol i lwyddiant y prosiectau. *(Rhowch ddolenni i unrhyw weithgarwch sydd wedi’i gwblhau os yn berthnasol. Dim mwy na 200 gair)* | *Testun enghreifftiol:*<br>*Rwyf wedi gweithio ym maes ôl-gynhyrchu animeiddio ac wedi cynhyrchu ffilm animeiddiedig fer 'Jimmy' a gafodd ei dewis ar gyfer Gŵyl Ffilmiau Encounters 2022. Er fy mod yn dal yn weddol newydd yn fy ngyrfa ym maes cynhyrchu animeiddiadau, mae gen i brofiad rheoli prosiect cryf ac rwy'n teimlo y gallaf ddeall, mewn ffordd ddefnyddiol, y cwestiynau a fydd gan fy ngharfan yn ogystal â rhai o'r rhwystrau y gallan nhw fod yn eu hwynebu er mwyn symud ymlaen. Yn fy rôl flaenorol yn xxx fe wnes i gynnal digwyddiadau rhwydweithio misol ar gyfer talent animeiddio lleol, felly mae gen i brofiad o hyrwyddo digwyddiadau a chydlynu gweithgarwch. Mae gen i brofiad o fonitro amrywiaeth a gweithio'n gynhwysol o fy rôl fel swyddog ymgysylltu cymunedol ar gyfer cyngor xxx. Mae fy ngwaith ym maes ôl-gynhyrchu wedi golygu bod gen i berthnasoedd â gweithwyr proffesiynol animeiddio fel xxx a fydd yn ddefnyddiol i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r ŵyl, gan gysylltu'r ddirprwyaeth â ffigurau allweddol.* |
| A oes unrhyw ffordd y gallwch chi adeiladu rhywfaint o waddol i’r prosiect? Os felly, sut? *(Dim mwy na 200 gair)* | *Testun enghreifftiol:*<br>*Byddaf yn creu grŵp facebook i’r gymuned (gan adeiladu o bawb sy'n cydsynio i dderbyn deunydd marchnata o'r pwynt ymgeisio) a fydd, gobeithio, yn dod yn hunangynhaliol ac yn fan cyswllt parhaus i'r rhai sydd â diddordeb mewn animeiddio yn y DU. Byddaf yn creu rhai argymhellion byr ar gynorthwyo’r rhai sydd â diddordeb mewn gwneud ffilmiau nodwedd animeiddiedig ar gyfer Ffilm Cymru, a all, gobeithio, ddylanwadu ar bolisi. Fy uchelgais hefyd yw codi buddsoddiad pellach ar gyfer y gwaith hwn ar ôl defnyddio’r iteriad hwn fel prawf o gysyniad, gan ddod o hyd i bartner masnachol.* |
| Rhowch grynodeb o'r ffyrdd y byddwch yn gwneud eich prosiect yn gynhwysol. *(Dim mwy na 500 gair)* | *Testun enghreifftiol:*<br>- *Byddwn yn cynnal digwyddiad ymgysylltu i annog ceisiadau ac i ateb cwestiynau gan bobl yn yr ystafell*<br>- *Byddwn yn sicrhau bod gennym fersiynau dwyieithog a ffontiau mawr o ffurflenni cais*<br>- *Byddwn yn dal cyllid yn ôl ar gyfer bwrsariaethau mynediad i bobl sydd angen cymorth ychwanegol i elwa’n llawn o’r ddirprwyaeth, gan gyfeirio at hyn ar y brig wrth hyrwyddo’r cyfle ar gamau cynnar fel bod pobl yn gwybod y gallai hyn weithio iddynt.*<br>- *Byddwn yn sicrhau ein bod yn talu aseswyr arbenigol sy'n dod â phrofiad bywyd gwahanol i dîm ein prosiect, a fydd â llais cyfartal wrth benderfynu ar y garfan derfynol.*<br>- *Bydd gennym egwylion tŷ bach mewn unrhyw amserlen o weithgarwch a byddwn yn casglu gwybodaeth am hoffterau pobl o ran amseriad* |

| | |
|---|---|
| | *gweithgarwch, ac unrhyw ystyriaethau eraill fel amhariad ar y clyw a fydd yn ein helpu i lunio'r gweithgarwch o'u cwmpas.*<br>- *Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynrychioli talent Anabl a'r Mwyafrif Byd-eang mewn unrhyw ddelweddau hyrwyddo neu gynnwys dysgu a rannwn.*<br>- *Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y tu allan i Gaerdydd trwy bartneru â xxx a xxx yn siroedd xxx a xxx a byddwn hefyd yn cynnig bwrsariaethau teithio i unrhyw un y tu allan i bellter cymudo i Gaerdydd.* |

## Monitro a Gwerthuso

| | Targed | Sut fyddwch chi'n mesur? |
|---|---|---|
| Beth yw eich targedau cychwynnol ar gyfer y prosiect a sut fyddwch chi'n mesur a ydyn nhw wedi'u cyflawni? *(Dim mwy na 200 gair)* | - *50 o bobl wedi'u cyrraedd mewn digwyddiad rhwydweithio*<br>- *8 o bobl yn cymryd rhan yn y ddirprwyaeth* | *Ffurflen gofrestru ar Eventbrite a'r broses ddethol* |
| | - *Gwella dealltwriaeth cyfranogwyr o'r rolau ym maes ffilmiau nodwedd animeiddiedig* | *Arolwg llinell sylfaen ac arolwg eto i ddangos cynnydd o wael neu weddol i dda neu ragorol yn achos y mwyafrif o gyfranogwyr* |
| | - *Gwella dealltwriaeth cyfranogwyr o'r ffordd y caiff prosiectau nodwedd eu datblygu a'u hariannu* | *Arolwg llinell sylfaen ac arolwg eto i ddangos cynnydd o wael neu weddol i dda neu ragorol yn achos y mwyafrif o gyfranogwyr* |
| | - *Gwella dealltwriaeth cyfranogwyr o'r chwaraewyr allweddol yn y diwydiant ffilmiau nodwedd animeiddiedig* | *Arolwg llinell sylfaen ac arolwg eto i ddangos cynnydd o wael neu weddol i dda neu ragorol yn achos y mwyafrif o gyfranogwyr* |
| | - *Creu carfan amrywiol sydd i gyd yn gallu elwa o'r profiad* | *Monitro amrywiaeth yn ddienw ar y pwynt ymgeisio; arolwg adborth ar ddiwedd y prosiect* |

## EICH CAIS AM GYLLID CONNECTOR

| *Noder: Dim ond y colofnau sy'n berthnasol i'ch cais y bydd angen i chi eu llenwi.* | **Cyfraniad Ffilm Cymru**<br><br>Y swm rydych yn gofyn amdano | **Cyfraniad ymgeisydd/ymgeiswyr neu eraill** *(Os yw'n berthnasol. Nodwch swm, enw'r cyllidwr, ac ai arian parod neu mewn nwyddau ydyw)* | **CYFANSWM Y GYLLIDEB** |
|---|---|---|---|
| Rheoli Prosiect – Noder na all gorbenion fod yn fwy na 10% o gyfanswm cyfraniad Ffilm Cymru | | | |
| Cydlynu'r Prosiect | | | |
| Ymgynghorydd | | | |
| Teithio | | | |
| Llogi Lleoliad | | | |
| Cyfieithu | | | |
| Arlwyo | | | |
| Siaradwyr Arbenigol | | | |
| Mentoriaid | | | |
| Mynediad | | | |
| Arall (nodwch beth) | | | |
| **Cyfanswm:** | **£** | **£** | **£** |

| |
|---|
| **Nodiadau esboniadol ar y gyllideb (rhowch fanylion am unrhyw gost nad yw'n hunanesboniadol a dangoswch sut mae ffioedd yn rhannu fesul dydd a chyfradd y dydd)** |
| |

## RHESTR WIRIO'R FFURFLEN GAIS

| **Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth/dogfennau ategol canlynol yn cael eu cyflwyno i gwblhau eich cais am gyllid:** | |
|---|---|
| Ffurflen Gais wedi'i Chwblhau | |
| CVs eich tîm craidd neu ddolenni i broffiliau ar-lein | |

## LLOFNODION A DATGANIADAU

| |
|---|
| **A oes gennych chi neu unrhyw un o'ch cydweithwyr ar y prosiect hwn unrhyw berthynas ariannol a/neu bersonol agos ag unrhyw aelod o fwrdd neu gyflogai Ffilm Cymru Wales, Cymru Greadigol neu'r BFI?** Os oes, nodwch enw a swydd y person a natur eich perthynas. Mae hyn yn darparu tryloywder ynghylch unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau. |
| |

## DATGANIADAU A DIOGELU DATA

Trwy hyn rydym yn cadarnhau, yn datgan ac yn gwarantu bod y wybodaeth ganlynol yn wir ac yn gywir hyd eithaf ein gwybodaeth a'm cred ar y dyddiad hwn heddiw:

1. Nad oes symiau sy'n daladwy, yn ddyledus a heb ei dalu i Ffilm Cymru mewn perthynas ag unrhyw brosiectau y mae'r cwmni hwn neu unrhyw un o'i gwmnïau cysylltiedig (gyda'i gilydd, 'y Cynhyrchydd') wedi bod yn derbyn cyllid gan Ffilm Cymru tuag atynt; a/neu unrhyw brosiectau sydd bellach yn eiddo i'r Cynhyrchydd neu'n cael eu rheoli gan y Cynhyrchydd y mae trydydd parti wedi bod yn derbyn cyllid gan Ffilm Cymru tuag atynt (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r symiau sy'n ddyledus wrth ad-dalu benthyciadau datblygu mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi eu cynhyrchu wedi hynny) o dan unrhyw gytundeb, cynllun neu fenter;
2. Bod Ffilm Cymru wedi cael yr adroddiad gwerthiant mwyaf cyfredol ar gyfer pob prosiect a gynhyrchwyd neu a gyd-gynhyrchwyd gan y Cynhyrchydd sy'n derbyn cyllid gan Ffilm Cymru ac y mae gan Ffilm Cymru hawl i ran o'r refeniw mewn perthynas ag ef; a
3. Ym mhob ffordd arall, mae'r Cynhyrchydd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl gytundebau a wnaed ganddo â Ffilm Cymru (gan gynnwys cyflwyno'r holl ddeunyddiau cyflenwi cytundebol i Ffilm Cymru erbyn y dyddiad cyflwyno yn ôl contract).

☐ **Rwyf wedi darllen yr uchod, ac rwy'n ei ddeall ac yn ei gadarnhau.**

Bydd Ffilm Cymru'n defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais hon i helpu i brosesu eich cais. Gallai'r wybodaeth hon gael ei chadw ar gyfrifiadur a gallai gael ei defnyddio at ddibenion ystadegol. Gallai'r wybodaeth gael ei storio, ei phrosesu a'i throsglwyddo'n gyfrinachol i unigolion neu sefydliadau sy'n ein helpu i asesu ceisiadau neu fonitro cyllid, neu eu rhannu â nhw. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a darpariaethau cyfreithiol cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelu data. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Ffilm Cymru yn eu cofnodion. Mae gennych hefyd yr hawl i fynnu bod Ffilm Cymru yn cywiro unrhyw anghywirdebau yn eich gwybodaeth. I gael mwy o wybodaeth, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

☐ **Rwyf wedi darllen yr uchod, ac rwy'n ei ddeall ac yn ei gadarnhau.**

Rwy'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu yn y cais hwn, ac mewn unrhyw ddeunydd sy'n cael ei chyflwyno i'w gefnogi, yn wir ac yn gywir. Rwy'n cadarnhau bod pob cais arall i ddosbarthwyr arian cyhoeddus eraill wedi'u datgan. Rwy'n ymrwymo i roi gwybod i Ffilm Cymru yn llawn ac ar unwaith am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y cais hwn neu ddeunyddiau cysylltiedig. Rwy'n cadarnhau mai fi yw'r ymgeisydd neu fod gen i'r awdurdod i wneud y cais hwn ar ran y sefydliad sy'n ymgeisio.

☐ **Rwyf wedi darllen yr uchod, ac rwy'n ei ddeall ac yn ei gadarnhau.**

**Enw**
**Llofnod**
**Swydd**
**Dyddiad**

☐ **Ticiwch y blwch hwn os hoffech dderbyn e-byst am gyfleoedd cyllido a hyfforddi tebyg gan Ffilm Cymru Wales.**

## MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar eich prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch ag:

**Emily Morus Jones**
Cydlynydd Talent
emily@ffilmcymruwales.com

Ffilm Cymru Wales
W2, Tŷ Wellington
Stryd Wellington
CAERDYDD
CF11 9BE